# CYNGOR SIR CEREDIGION

# GWYBODAETH I RAI SY'N TALU'R DRETH GYNGOR 2025-2026

**Ymholiadau post i:**

Cyllid a Chaffael
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3UE

☎ 01970 633253
Ebost **revenues@ceredigion.gov.uk**

## CRYNODEB Y GYLLIDEB 2025-2026



Ar 03/03/25, pennodd Cyngor Sir Ceredigion ei gyllideb ar gyfer 2025/26 ar £209.164m sydd wedi arwain at godiad o 9.3% yn Nhreth y Cyngor. Mae'r codiad hwn yn cynrychioli codiad o 8.7% ar gyfer Gwasanaethau y Cyngor ac 0.6% pellach er mwyn ariannu cynnydd yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2025/26. Mae'r cynnydd at ddibynion y Cyngor Sir (gan gynnwys yr ardoll Tan) yn golygu bod eiddo Band D yng Ngheredigion yn talu £1,886.57 – cynnydd o £160.52 (Mae hyn yn gyfwerth a £13.38 pob mis).

Cyfrifoldeb bob Awdurdod Lleol cyfansoddol yn y rhanbarth yw'r gwaith o ariannu Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer ei weithredu, gyda phob un yn ysgwyddo cyfran gymesur yn seiliedig ar boblogaeth. Mae'r cyfraniad sydd ei angen gan Gyngor Sir Ceredigion (a elwir yn Ardoll Tân) wedi codi o £5.440m yn 2024/25 i £5.836m yn 2025/26 (a cynnydd o 7.3%). Yn wahanol i gost Plismona sy'n Braesept ac a ddangosir ar wahân ar eich bil Treth y Cyngor, mae'r Ardoll Tân yn rhan o Gyllideb £209.164m y Cyngor. Mae mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth Tân ar gael yn www.mawwfire.gov.uk.

Gellir dadansoddi'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer elfen y Cyngor Sir ymhellach fel a ganlyn:

| | Cynnydd yn Nhreth y Cyngor | Cost fesul Mis Band D |
|---|---|---|
| Cynnydd craidd | 4.3% | £6.18 |
| Cynnydd y Canghellor mewn Yswiriant Gwladol Cyflogwyr | 2.9% | £4.17 |
| Buddsoddi mewn Gwasanaethau Casglu Gwastraff a Gorfodi Cynllunio | 1.5% | £2.22 |
| **Is-gyfanswm – Gwasanaethau'r Cyngor** | **8.7%** | **£12.57** |
| Ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru | 0.6% | £0.81 |
| **CYFANSWM** | **9.3%** | **£13.38** |

Derbyniwyd Setliad Ariannol Dros Dro Ceredigion gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 ar 11/12/24 ac yn wreiddiol roedd yn gynnydd o 3.6% mewn cyllid, sy'n golygu bod Ceredigion yn y 15fed safle o blith y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn golygu mai Ceredigion sydd wedi derbyn y cynnydd isaf y pen o'r boblogaeth ar draws Cymru gyfan. Derbyniwyd y Setliad Ariannol Terfynol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 ar 20/02/25 ac arweiniodd hyn at gynnydd o 3.8% mewn cyllid. Mae'r cyllid ychwanegol wedi galluogi gostwng y cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 9.9% i 9.3%.

Mae'r Cyngor hefyd yn casglu Treth y Cyngor ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys (codiad o 8.6%) a'r Cynghorau Tref a Chymuned (codiad cyfartalog o 6.6%). Yn gyffredinol, cynyddodd bil Treth y Cyngor ar gyfer eiddo band D 9.1% - cynnydd o £192.20. (Mae hyn yn cyfateb i £16.02 ychwanegol y mis).

Mae Llywodraeth Cymru yn gosod Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer Cynghorau bob blwyddyn. Mae Asesiad o Wariant Safonol Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer 2025/26 yn £200.3m.

Mae rhaglen o Fuddsoddiad cyfalaf gwerth cyfanswm o £31m wedi'i chynllunio ar gyfer 2025/26 (£121m ar gyfer cyfnod y rhaglen gyfalaf aml-flwyddyn 2025/26 – 2027/28).

## CYD-DESTUN Y GYLLIDEB




Mae'r heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu wedi'u gosod yng nghyd-destun yr heriau parhaol economaidd cenedlaethol y mae'r Deyrnas Unedig gyfan yn eu hwynebu.

Cyfanswm y pwysau o ran costau a wynebir gan y Cyngor ar gyfer 2025/26 yw £11.8m, sy'n cyfateb i ffactor chwyddiant penodol i Geredigion o 6.1%. Mae hyn yn cymharu â chwyddiant cyffredinol o 3% (ffigur CPI Ionawr 2025). Yn ogystal â hyn, mae cynghorwyr wedi blaenoriaethu buddsoddi mewn 2 wasanaeth rheng flaen allweddol – Casglu Gwastraff (£481k) a Gorfodi Cynllunio (£346k).

Felly bu angen dod o hyd i ddiffyg yn y gyllideb o £7.3m o gyfuniad o Arbedion o £1.1m yn y Gyllideb ac ystyriaethau Treth y Cyngor.

Yn gyffredinol, nid yw'r meysydd lle gwelir pwysau o ran Costau yn unigryw i Geredigion. Mae'r rhain yn amrywio o ddyfarniadau cyflog (a bennwyd yn genedlaethol) i effaith penderfyniad y Canghellor ynghylch cynyddu cyfraniad Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr i chwyddiant Contractau a chynyddu cost yr ardoll tân. Mae'r galw ar gyllidebau sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yng Ngheredigion yn parhau i dderbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf (mae hyn wedi codi o £12.00 i £12.60 yr awr - cynnydd o 5%) a bod effaith Yswiriant Gwladol y Cyflogwyr ar Ddarparwyr Gofal Cymdeithasol rheng flaen hanfodol yn cael ei gydnabod.

Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ar 14/12/23 i gynyddu premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Tymor Hir, roedd angen cydbwyso'r awydd i neilltuo holl arian premiymau Treth y Cyngor gyda sefyllfa ehangach y Gyllideb a'r gallu i leihau baich Treth y Cyngor ar holl drigolion Ceredigion.

O ganlyniad mae'r **Cynllun Tai Ceredigion** yn parhau i fod ar gael i gefnogi preswylwyr yng Ngheredigion gyda llwybr at berchen cartref (mae rhagor o fanylion ar gael o dan y pennawd [https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/y-cynllun-tai-cymunedol-rhannu-ecwiti/](https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/tai/y-cynllun-tai-cymunedol-rhannu-ecwiti/) mae hwn yn cael ei ariannu gan 25% o arian Premiwm Treth y Cyngor. Mae'r 75% sy'n weddill o arian Premiwm Treth y Cyngor yn cynorthwyo gyda sefyllfa'r gyllideb gyffredinoler mwyn lleihau'r hyn a fyddai wedi bod yn fwy o faich o ran Treth y Cyngor ar drigolion Ceredigion. O'r 01/04/25 bydd lefel Premiymau Treth y Cyngor y gellir eu codi ar Ail Gartrefi yn cynyddu i 150%. Amcangyfrifir y bydd y penderfyniad hwn yn darparu £1.1m ar gyfer Cyllideb 25/26.

## TRETH Y CYNGOR

**Beth yn hollol y mae elfen y Cyngor Sir o Dreth y Cyngor yn talu amdano?**

Mae Treth y Cyngor yn dreth gyffredinol sy'n seiliedig ar werth eiddo ac nid yw'n gweithredu ar sail Gwasanaeth talu a defnyddio. Bydd preswylwyr yn gweld ac yn defnyddio gwahanol wasanaethau'r Cyngor ar wahanol adegau yn eu bywydau:

- Bydd hyn yn dechrau gyda chofrestru genedigaeth ac yna'n symud ymlaen i gynnwys darparu a chludo i addysg Feithrin, Cynradd ac Uwchradd ac addysg Ôl-16 - boed hynny'n addysg chweched dosbarth neu'n hyfforddiant galwedigaethol. Darperir hefyd Wasanaethau Cerdd a Gwasanaethau Ieuenctid.
- Fel oedolyn, gall hyn gynnwys defnyddio canolfannau Chwaraeon, defnyddio Llyfrgell, cerdded llwybr Arfordir Ceredigion (a hawliau tramwy cyhoeddus eraill), cofrestru i bleidleisio mewn Etholiad, cyflwyno cais Rheoliadau Cynllunio neu Adeiladu, bwyta mewn sefydliadau bwyd diogel a rheoledig, mynychu Amgueddfa neu Theatr y Cyngor, casglu eich sbwriel (ac yna ei waredu neu ei ailgylchu), defnyddio safle Gwastraff Cartref, gyrru ar Briffyrdd a Phontydd a gaiff eu cynnal a'u cadw (gan gynnwys graeanu'r ffyrdd dros y gaeaf), defnyddio gwasanaeth Bws cyhoeddus, goleuadau stryd ynghynn ar eich stryd a'r gallu i alw'r Gwasanaeth Tân ac Achub mewn

argyfwng.

- Yn ddiweddarach, bydd preswylydd yn elwa o brisiau tocynnau teithio rhatach, ond yn y pen draw efallai y bydd angen mynediad at wasanaethau Gofal a Chymorth (gan ddefnyddio staff gofal cymdeithasol gwerthfawr sy'n derbyn cyflog sydd o leiaf yn Gyflog Byw Gwirioneddol yng Nghymru). Gall hyn gynnwys cefnogaeth a chyfarpar er mwyn gallu byw'n Annibynnol, gofal yn y cartref a lle mewn Cartref Gofal Preswyl. Gall hefyd gynnwys, yn y pen draw, Gwasanaeth y Crwner o bosib a chofrestru marwolaeth.

## DADANSODDIAD CYLLIDEB


**Beth mae pob Gwasanaeth yn ei gostio?**

Mae'r Cyllidebau ar gyfer pob Gwasanaeth wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Gwasanaethau | 2025/26 Rheoladwy Gwasanaeth Cyllidebau £'000 | Ychwanegu Dyraniadau Mewnol/ Talidau Cyfalaf £'000 | Llai Ad-daliadau Mewnol £'000 | 2025/26 Cyllideb Net y Cyngor Sir (gan gynnwys Ardollau) £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol | 7,151 | 1,278 | (6,638) | 1,791 |
| Gwasanaethau Democrataidd | 5,566 | 850 | (3,580) | 2,557 |
| Yr Economi ac Adfywio | 4,264 | 3,327 | (4,226) | 3,365 |
| Cyllid a Chaffael | 22,248 | 1,505 | (24,249) | (496) |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 21,086 | 7,402 | - | 28,488 |
| Cyfreithiol a Llywodraethu | 1,798 | 225 | (1,309) | 714 |
| Pobl a Threfniadaeth | 2,548 | 320 | (2,074) | 794 |
| Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd | 2,670 | 707 | (180) | 3,197 |
| Porth Cymorth Cynnar | 4,673 | 4,829 | - | 9,502 |
| Porth Cynnal | 41,463 | 3,820 | - | 45,283 |
| Porth Gofal | 20,741 | 3,269 | - | 24,010 |
| Ysgol a Diwylliant | 62,721 | 14,372 | - | 77,093 |
| Grŵp Arweiniol | 5,747 | 352 | - | 6,099 |
| Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd Wrth Gefn | 6,488 | - | - | 6,488 |
| | 209,164 | 42,256 | (42,256) | 209,164 |

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad 3 adroddiad y Gyllideb a ystyriwyd gan y Cyngor llawn ar 03/03/2025 - Cyngor Sir Ceredigion Agenda Cyngor ar Dydd Llun, 3ydd Mawrth, 2025, 10.00 am

Gellir dangos y costau uniongyrchol y gellir eu rheoli o ran Gwasanaethau'r Cyngor (ac eithrio unrhyw ailddyrannu o ran y Gwasanaethau Cymorth neu daliadau cyfalaf megis Dibrisio) ar gyfer 2025/26 fel hyn:




Bydd 75% o gyllideb y Cyngor yn cael ei wario ar Ysgolion a Dysgu Gydol Oes, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gydol Oes, a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol. Ar ôl darparu ar gyfer costau sefydlog (ar y cyfan) eraill (sef Lwfansau'r Aelodau, Ardoll yr Awdurdod Tân, Costau Ariannu Cyfalaf a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor), mae hyn yn gadael dim ond 14% (£29.6m) ar gyfer holl Wasanaethau eraill y Cyngor.

*Gwneir Addasiadau ar gyfer y rhain:*

* *yn cynnwys Lleoliadau y Tu Allan i'r Sir (o'r Grŵp Arweiniol), Ffioedd Cyfreithiol (o Gyfreithiol a Llywodraethu) a Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru (o Bobl a Threfniadaeth)*

** *yn cynnwys PFI Penweddig (o Gyllid a Chaffael)*

*** *Addaswyd Cyllideb Grŵp Arweinyddiaeth i ddosrannu cyllid Yswiriant Gwladol Cyflogwyr i'r holl Wasanaethau.*

# Mae'r Cyngor yn disgwyl gwario ar y gwasanaethau yma yn 2025-2026

| Gwasanaethau | CYLLIDEB 2025-2026 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros £000's | Incwm £000's | Grantiau £000's | Gwariant Net £000's |
| Cyswllt Cwsmeriaid a TGCh | 1,807 | 16 | 0 | 1,791 |
| Gwasanaethau Democrataidd | 2,837 | 1 | 0 | 2,836 |
| Economi ac Adfwyid | 7,955 | 3,172 | 1,225 | 3,558 |
| Cyllid a Chaffael | 12,457 | 602 | 11,544 | 311 |
| Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol | 36,416 | 5,664 | 2,264 | 28,488 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 796 | 82 | 0 | 714 |
| Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd | 3,967 | 274 | 496 | 3,197 |
| Pobl a Threfniadaeth | 1,128 | 42 | 262 | 824 |
| Porth Cymorth Cynnar | 19,799 | 2,057 | 8,240 | 9,502 |
| Porth Cynnal | 61,300 | 14,206 | 1,675 | 45,419 |
| Porth Gofal | 29,481 | 5,407 | 0 | 24,074 |
| Ysgolion a Dysgu Gydol Oes | 98,824 | 4,668 | 16,943 | 77,213 |
| Grŵp Arweiniol | 8,888 | 0 | 2,338 | 6,550 |
| **Cost Gwasanaethau'r Cyngor Sir** | **285,655** | **36,191** | **44,987** | **204,477** |
| Cyfraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn | (6,541) | | | (6,541) |
| Darpariaeth wrth Gefn | 549 | | | 549 |
| Gwariant Cyfalaf a godir ar y Gronfa Gyffredinol | 4,724 | | 74 | 4,650 |
| **Ardollau a Phraeseptau Tref a Chymuned:** | | | | |
| Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | 5,836 | | | 5,836 |
| Cyfoeth Naturiol Cymru - Cors y Borth | 13 | | | 13 |
| Praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned | 1,681 | | | 1,681 |
| **Gofyniad Cyllideb (gan gynnwys Praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned)** | **291,917** | **36,191** | **45,061** | **210,665** |
| Ychwanegu: Gostyngiad Trethi Annomestig | 180 | | | 180 |
| Wedi tynnu: Praeseptau Cynghorau Tref a Chymuned | 1,681 | | | 1,681 |
| **Cyllideb Net y Cyngor Sir gan gynnwys Ardollau** | **290,416** | | | **209,164** |
| **Ariennir gan:** | | | | |
| Grantiau Penodol | 45,061 | | | |
| Incwm Arall | 36,191 | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 144,225 | | | 144,225 |
| **I'w Gwrdd Gan: Talwyr Treth y Cyngor** | **64,939** | | | **64,939** |

Mae CRONFEYDD WRTH GEFN yn angenrheidiol i gwrdd ag ymrwymiadau hysbys yn y dyfodol a hefyd i ariannu gwariant cyn cael incwm. Mae cronfeydd wrth gefn hefyd yn ddymunol i gwrdd â gwariant annisgwyl neu ddiffyg incwm. Mae balansau amcangyfrifedig cronfeydd wrth gefn y Cyngor fel a ganlyn:

| | Balans a Amcangyfrifir 31.03.2025 £000's | | | Balans a Amcangyfrifir 31.03.2026 £000's |
|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd wrth gefn wedi'u Clustnodi | 33,633 | | | 27,092 |
| Cronfa Gyffredinol | 6,704 | | | 6,704 |
| Cyfanswm | **40,337** | | | **33,796** |

Mae Treth y Cyngor sylfaenol yn daladwy mewn perthynas ag anheddau Band 'D', tra bod ffracsiwn o'r swm hwn yn daladwy ar gyfer anheddau mewn bandiau eraill.
Dangosir Treth gros y Cyngor sy'n daladwy at ddibenion y Cyngor Sir a Heddlu Dyfed-Powys gyferbyn:-



| Band | Gwerth Annedd o | Gwerth Annedd hyd at | Rhan o'r Dreth Sylfaenol | Cyngor Ceredigion | Heddlu Dyfed-Powys |
|---|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | | £ c | £ c |
| A | - | 44,000 | 6ed/9 | 1,257.71 | 240.45 |
| B | 44,001 | 65,000 | 7fed/9 | 1,467.33 | 280.53 |
| C | 65,001 | 91,000 | 8fed/9 | 1,676.95 | 320.60 |
| D | 91,001 | 123,000 | 9fed/9 | 1,886.57 | 360.68 |
| E | 123,001 | 162,000 | 11eg/9 | 2,305.81 | 440.83 |
| F | 162,001 | 223,000 | 13eg/9 | 2,725.05 | 520.98 |
| G | 223,001 | 324,000 | 15fed/9 | 3,144.28 | 601.13 |
| H | 324,001 | 424,000 | 18fed/9 | 3,773.14 | 721.36 |
| I | 424,001 | - | 21ain/9 | 4,402.00 | 841.59 |

Mae eitemau arbennig ychwanegol yn ddyledus i archebiannau Cynghorau Tref/Cymuned fel a gwelir ar y rhestr isod:

| EITEMAU ARBENNIG TRETH Y CYNGOR 2025-2026 | | | |
|---|---|---|---|
| **Tref neu Gymuned** | **Archebiant 2024-2025** | **Archebiant 2025-2026** | **Treth y Cyngor (Band D)** |
| | **£ c** | **£ c** | **£ c** |
| Aberystwyth | 635,275.00 | 656,940.00 | 156.04 |
| Aberaeron | 46,824.00 | 50,708.00 | 61.15 |
| Aberteifi | 90,022.00 | 99,024.20 | 51.66 |
| Llanbedr Pont Steffan | 43,000.00 | 60,000.00 | 58.56 |
| Cei Newydd | 38,260.00 | 43,999.00 | 46.50 |
| Borth | 34,599.69 | 38,324.70 | 45.63 |
| Ceulanamaesmawr | 16,000.00 | 17,000.00 | 38.65 |
| Blaenrheidol | 4,706.00 | 4,284.00 | 19.95 |
| Genau'r Glyn | 10,000.00 | 10,500.00 | 28.89 |
| Llanbadarn Fawr | 49,281.00 | 60,000.00 | 66.37 |
| Llangynfelin | 8,250.00 | 8,250.00 | 29.52 |
| Llanfarian | 22,700.00 | 25,000.00 | 31.64 |
| Llangwyryfon | 4,500.00 | 4,500.00 | 16.56 |
| Llanilar | 7,200.00 | 7,500.00 | 15.19 |
| Llanrhystud | 11,600.00 | 11,600.00 | 24.53 |
| Melindwr | 7,500.00 | 7,500.00 | 13.62 |
| Pontarfynach | 3,500.00 | 3,500.00 | 13.00 |
| Tirymynach | 19,500.00 | 30,000.00 | 36.24 |
| Trawsgoed | 5,200.00 | 5,600.00 | 11.99 |
| Trefeurig | 18,000.00 | 20,000.00 | 24.29 |
| Faenor | 33,812.00 | 33,782.00 | 40.84 |
| Ysgubor-y-Coed | 3,850.00 | 3,850.00 | 21.56 |
| Llanddewi Brefi | 14,400.00 | 18,000.00 | 57.81 |
| Llangeitho | 5,500.00 | 5,500.00 | 14.47 |
| Lledrod | 2,553.00 | 2,808.30 | 8.63 |
| Nantcwnlle | 2,500.00 | 2,500.00 | 6.33 |
| Tregaron | 25,000.00 | 30,000.00 | 53.61 |
| Ysbyty Ystwyth | 2,500.00 | 2,500.00 | 11.11 |
| Ystrad Fflur | 7,574.00 | 8,710.00 | 25.91 |
| Ystrad Meurig | 2,410.66 | 2,476.50 | 15.00 |
| Ciliau Aeron | 6,000.00 | 6,000.00 | 13.97 |
| Henfynyw | 7,000.00 | 7,000.00 | 13.17 |
| Llanarth | 10,903.73 | 12,539.23 | 16.65 |
| Llandysiliogogo | 12,834.90 | 15,401.88 | 26.23 |
| Llainfair Clydogau | 7,000.00 | 7,000.00 | 22.48 |
| Llanfihangel Ystrad | 9,950.00 | 9,950.00 | 14.67 |
| Llangybi | 4,600.00 | 5,290.00 | 18.56 |
| Llanllwchaearn | 11,566.80 | 11,913.80 | 22.61 |
| Llansantffraed | 28,000.00 | 30,000.00 | 46.71 |
| Llanwenog | 15,000.00 | 13,000.00 | 21.36 |
| Llanwnnen | 3,568.95 | 3,747.40 | 16.64 |
| Dyffryn Arth | 14,550.00 | 14,550.00 | 23.96 |
| Aberporth | 46,298.66 | 57,873.00 | 47.77 |
| Beulah | 25,000.00 | 35,000.00 | 38.13 |
| Llandyfriog | 26,000.00 | 25,000.00 | 28.74 |
| Llandysul | 50,737.14 | 54,003.85 | 41.71 |
| Llangoedmor | 32,400.00 | 35,000.00 | 56.37 |
| Llangrannog | 10,500.00 | 11,550.00 | 23.92 |
| Penbryn | 12,500.00 | 15,000.00 | 18.37 |
| Troedyraur | 12,000.00 | 10,000.00 | 14.56 |
| Y Ferwig | 24,600.00 | 27,060.00 | 38.89 |
| **Cyfanswm** | **1,547,027.53** | **1,681,235.86** | |

## NODIADAU EGLUROL TRETH Y CYNGOR

### ANHEDDAU WEDI'U HEITHRIO

Mae Treth y Cyngor yn daladwy ar gyfer y rhan fwyaf o anheddau.
Y mae yna, fodd bynnag, rai eithriadau lle na fydd yn rhaid talu Treth y Cyngor ar eu cyfer. Dyma grynodeb isod:-

### DOSBARTH CRYNODEB

A. Annedd heb ddodrefn:-
a) lle bo angen gwneud gwaith trwsio, neu lle bo ar y gweill neu eisioes wedi'i wneud er mwyn ei gwneud yn addas i fyw ynddo, neu
b) lle bo gwaith adeiladau naill ai ar y gweill neu eisoes wedi'i gwneud. Bydd yr eithriad yn gymwys am y cyfnod byrraf o'r ddau isod:-
- Cyfnod o 12 mis
- Cyfnod yn dechrau ar y diwrnod y symudwyd  y dodrefn allan o'r annedd ac yn diweddu 6 mis ar ôl i'r gwaith trwsio neu adeiladu mawr gael ei gwblhau i raddau helaeth.

B. Annedd sy'n eiddo i Elusen a fu'n wag am lai na 6 mis.

C. Annedd sy'n wag a heb ddodrefn i bob pwrpas ac a fu felly am lai na 6 mis, neu eiddo sydd wrthi yn cael ei godi neu sydd i bob pwrpas wedi'i godi ond a fu'n wag a heb ddodrefn am lai na 6 mis ers ei gwblhau.

D. Annedd sy'n wag oherwydd bod y sawl sy'n rhwymedig i dalu yn y carchar.

E. Annedd sy'n wag oherwydd bod y sawl sy'n rhwymedig i dalu yn glaf tymor hir mewn ysbyty neu gartref gofal.

F. Eiddo sy'n wag a lle bo'r sawl sy'n rhwymedig i dalu yn gynrychiolydd personol y cyn- breswylydd ymadawedig a lle bu llai na 6 mis ers i'r ewyllys gael ei brofi neu i lythyrau gweinyddu gael eu cyflwyno.

G. Annedd y gwaherddir ei meddiannu yn ôl y gyfraith.

H. Annedd sy'n wag ac yn cael ei gadw ar gyfer gweinidog yr efengyl.

I. Annedd sy'n wag oherwydd bod y sawl sy'n rhwymedig i dalu yn derbyn gofal mewn eiddo arall.

J. Annedd sy'n wag oherwydd bod y sawl sy'n rhwymedig i dalu yn darparu gofal mewn eiddo arall.

K. Annedd sy'n wag oherwydd bod y sawl sy'n rhwymedig i dalu yn fyfyriwr sy'n byw mewn eiddo arall.

L. Annedd sy'n wag oherwydd iddo gael ei hawlio'n ôl gan y sawl a roddodd forgais arno.

M. Neuadd Breswyl i fyfyrwyr.

N. Anedd lle bo'r preswylwyr i gyd yn fyfyrwyr. Bydd yr eithriad yn dal i fod yn gymwys lle bydd gwr neu wraig i fyfyriwr nad yw'n Brydeiniwr yn cael ei wahardd, oherwydd telerau'r fisa i gael mynediad i'r Deyrnas Unedig, rhag cael swydd na derbyn budd daliadau.

O. Annedd sy'n eiddo i'r Gweinidog Gwladol dros Amddiffyn.

P. Anheddau lle bo'r preswylwyr yn aelodau o luoedd ar ymweliad (yn unol ag ystyr Rhan 1 Deddf Lluoedd ar Ymweliad 1952).

Q. Annedd sy'n wag a lle bo'r sawl sy'n rhwymedig i dalu yn ymddiriedolwr mewn achos o fethdalu.

R. Annedd yn cynnwys llain neu angorfa lle nad oes yno garafán na chwch.

S. Annedd lle bo'r preswylydd neu'r preswylwyr o dan 18 oed.

T. Annedd wag sy'n rhan o eiddo sengl sy'n cynnwys annedd arall na ellir ei gosod ar wahân heb dorri rheolau Cynllunio.

U. Annedd lle bo'r preswylwyr yn bobl sy'n dioddef o salwch meddwl difrifol yn unig neu bobl sy'n dioddef o salwch meddwl difrifol ynghyd ag un neu ragor o fyfyrwyr.

V. Annedd lle bo'r sawl sy'n rhwymedig i dalu yn Ddiplomat neu'n gweithio i rai Sefydliadau Rhyngwladol arbennig.

W. Anecs neu ran annibynnol i'r eiddo lle bo perthynas oedrannus neu anabl yn byw a gweddill y teulu yn byw yn y rhan arall o'r eiddo.

X. eiddo gydag un neu fwy o unigolion sydd wedi gadael gofal (24 oed neu lai, ac yn berson ifanc categori 3 fel a ddiffinir gan Adran 104 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014) lle mae pob preswylydd yn unai unigolion sydd wedi gadael gofal, yn fyfyrwyr neu sydd ag anableddau dysgu / anhwylder iechyd meddwl – eithriad yn effeithiol o 1af Ebrill 2019 yn unig.

## GOSTYNGIAD I PERSONAU ANABL

Mae'n bosib y byddwch yn gymwys i gael gostyngiad yn Nhreth y Cyngor os oes rhywun sy'n anabl yn eich cartref ac os oes yna rai nodweddion yn y cartref sy'n ofynnol i ateb anghenion y sawl sy'n anabl. Gallai'r nodweddion arbennig gynnwys ystafell arbennig, ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol neu le digonol ar gyfer cadair olwyn. Rhaid i'r nodweddion fod yn hanfodol ac o bwys i les y sawl sy'n anabl.

## GWASANAETHAU AR-LEIN

### Budd-dal Tai / Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor

Gallwch yn awr hawlio Budd-dal a gostyngiad o dan y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor ar lein gyda'n ffurflen hawlio electronig sydd ar

gael yn Gymraeg, Saesneg a fersiwn sydd yn benodol ar gyfer cwsmeriaid sydd â nam gweledol. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar lein er mwyn cwblhau'r ffurflen a darparu'r dystiolaeth y gofynnir amdani. Mae Cyfrifwr Budd-daliadau hefyd ar gael lle medrwch roi eich manylion fel canllaw ynglŷn â maint yr ydych yn deilwng i'w dderbyn.

## Treth y Cyngor & Threthi Annomestig

Mae deddfwriaeth newydd a daeth i rym ar y 1af o Ebrill 2010 yn caniatáu anfon rhai biliau a hysbysiadau yn electronig. Bydd e-bilio yn caniatáu i chi gael mynediad i'ch biliau a hysbysiadau dros y wefan ac ynghyd â Hunan Wasanaeth y mae gennych fynediad parhaus i'ch cyfrif. Er mwyn ymuno â'r e-bilio, rhowch eich cyfeiriad e-bost i revenues@ceredigion.gov.uk.
Logiwch ar www.ceredigion.gov.uk er mwyn cael mwy o wybodaeth.

## DISGOWNT

Mae'r adran isod yn rhoi rhyw syniad i chi o'r mathau o ostyngiadau sy'n bosibl. Sylwer nad yw'r amodau cymhwysedd llawn i'w gweld yma.
Os ydych yn credu efallai fod gennych hawl i ddisgownt yna dylech gyflwyno cais i'r Cyfarwyddwr Cyllid yn y cyfeiriad uchod neu ar lein drwy y wefan www.ceredigion.gov.uk.
Os mai un oedolyn yn unig sy'n byw yn yr annedd caniateir gostyngiad o 25%. Gall rhai oedolion sy'n byw yn yr annedd gael eu 'diystyru' at ddibenion y gostyngiad. Mewn geiriau eraill, ni chânt eu cyfri'n aelodau o'r cartref at ddibenion hawlio gostyngiad yn Nhreth y Cyngor.

Dyma'r grwpiau o oedolion a gaiff eu diystyru:

- Myfyrwyr llawn amser, nyrsys sy'n fyfyrwyr; prentisiaid a phobl ifanc sydd ar gyrsiau Hyfforddiant Ieuenctid;
- Cleifion preswyl mewn ysbyty;
- Pobl sy'n derbyn gofal mewn cartrefi gofal;
- Pobl sy'n dioddef o salwch meddwl difrifol;
- Pobl sy'n aros mewn rhai hosteli neu lochesi nos arbennig;
- Pobl ifanc 18 a 19 oed sydd yn neu newydd adael yr ysgol;
- Gweithwyr gofal sy'n gweithio am gyflog isel (i elusennau fel rheol);
- Pobl sy'n gofalu am rywun sydd ag anabledd ac nad yw'n wr, yn wraig, yn bartner nac yn blentyn dan 18 oed;
- Aelodau o luoedd sydd ar ymweliad a rhai sefydliadau rhyngwladol;
- Aelodau o gymunedau crefyddol (mynaich a lleianod);
- Carcharorion (ac eithrio'r rhai a garcharwyd am beidio â thalu Treth y Cyngor neu ddirwy); Gellir cael gostyngiad o dan yr amgylchiadau isod:-
- Lle bo pawb ond un oedolyn sy'n byw yn yr annedd yn cael eu diystyru, neu
- Lle bo pob oedolyn sy'n byw yn yr annedd yn cael eu diystyru;

- o 1 Ebrill 2019, pobl sy'n gadael gofal - Mae person sy'n gadael gofal yn 24 oed  neu'n iau ac yn berson ifanc categori 3 fel y'i diffinnir gan adran 104 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**Os yw eich bil yn dangos bod gostyngiad wedi'i ganiatáu rhaid i chi ddweud wrth yr awdurdod sy'n eich bilio os bydd unrhyw newid yn eich amgylchiadau a fydd yn effeithio ar eich hawliau. Os na wnewch hynny, allwch gael eich cosbi.**

Cyflwynodd  Deddf Llywodraeth  Leol 2003  bwerau dewisol  newydd  ar gyfer y Cyngor mewn cyswllt  â disgownt treth y cyngor. Mae'r Ddeddf yn rhoi rhagor o ryddid i gynghorau i benderfynu neu amrywio disgownt ac eithriadau mewn cyswllt â threth y cyngor er mwyn rhoi ystyriaeth i broblemau lleol megis gorlifo a thrychinebau naturiol eraill.

## AIL GARTREFI

Bydd rhai anheddau wedi'u cynnwys yn un o dri dosbarth sydd wedi eu nodi gan Cynulliad Cymru:

Mae Dosbarth Penodedig A yn cynnwys pob annedd yng Nghymru:-

a) nad yw'n brif annedd neu'n unig annedd ar gyfer yr unigolyn dan sylw;
b) sydd wedi'i dodrefnu, a
c) y gwaherddir ei meddiannu yn ôl y gyfraith am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Mae Dosbarth Penodedig B yn cynnwys pob annedd yng Nghymru:-

a) nad yw'n brif annedd neu'n unig annedd ar gyfer yr unigolyn dan sylw;
b) sydd wedi'i dodrefnu, a
c) na waherddir ei meddiannu yn ôl y gyfraith am gyfnod di-dor o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

Mae Dosbarth Penodedig C yn cynnwys pob annedd drethadwy yng Nghymru:-

a) nad yw wedi ei meddiannu;
b) heb lawer o ddodrefn.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu peidio rhoi disgownt i anheddau sydd yn dod o fewn dosbarthiadau penodol A, B neu C.

## PREMIYMAU

Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn caniatáu i Awdurdodau Bilio yng Nghymru godi Premiwm o hyd at 100% o 01/04/2015 ar gyfer â'r ddwy adran a nodir isod (12A a 12B). Ni chododd Ceredigion Premiwm rhwng 01/04/2015 a 31/03/2017. Ar 01/04/2017 cyflwynwyd premiwm o 25% ar gyfer y ddau ddosbarth.

Roedd newidiadau i'r Ddeddfwriaeth yn caniatáu cynyddu Treth y Cyngor i 400% (100% Treth y Cyngor a 300% premiwm) o 01/04/2023.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi penderfynu, ar gyfer ag eiddo sy'n disgyn o dan adran 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 y bydd y premiymau canlynol yn gymwys o 01.04.2024 ymlaen:

**12A: anheddau gwag hirdymor**

**Y meini prawf yw;**

At ddibenion yr adran hon, mae annedd yn "annedd wag hirdymor" ar unrhyw ddiwrnod os am gyfnod di-dor o 1 flwyddyn o leiaf sy'n dod i ben â'r diwrnod hwnnw

- mae heb ei ddefnyddio, ac
- mae heb ei ddodrefnu'n sylweddol
    - 100% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn eiddo gwag hirdymor am hyd at a chan gynnwys 5 mlynedd
    - 150% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn eiddo gwag hirdymor ers dros 5 mlynedd a hyd at ac yn cynnwys 10 mlynedd
    - 200% ar gyfer eiddo sydd wedi bod yn eiddo gwag hirdymor ers dros 10 mlynedd

**12B: anheddau a breswylir ynddynt o bryd i'w gilydd (a elwir weithiau'n ail gartrefi)**

**Y meini prawf yw;**

- nid oes preswylydd yn yr annedd, a
- mae'r annedd wedi'i ddodrefnu'n sylweddol

Mae anheddau a breswylir ynddynt o bryd i'w gilydd (wedi'u dodrefnu ond heb breswylydd) yn cynnwys pob ail gartref a llety hunanarlwyo sy'n methu â bodloni meini prawf Ardrethi Annomestig.

- 100% o 01.04.2024
- 150% o 01.04.2025

Mae'r tai canlynol wedi'u heithrio o'r Premiwm;

- Am hyd at flwyddyn, y tai hynny sydd ar y farchnad i'w gwerthu neu'u rhentu.
- Rhandai sy'n cael eu defnyddio'n rhan o'r brif breswylfa neu annedd.

- Anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun ond does neb yn preswylio ynddyn nhw oherwydd bod y person hwnnw'n byw mewn llety o eiddo'r lluoedd arfog.
- Llecynnau carafanau ac angorfeydd cychod.
- Mae anheddau lle mae preswyliaeth wedi ei chyfyngu gan amodau cynllunio sy'n atal neb rhag preswylio ynddyn nhw am gyfnod di-dor o 28 o ddiwrnodau mewn blwyddyn.
- Anheddau y mae rhywun yn preswylio ynddyn nhw o bryd i'w gilydd pan fo'r preswylydd arferol yn byw mewn llety sy'n gysylltiedig â gwaith.

## ATEBOLRWYDD PERCHENOGION

Rhestrir isod yr achosion lle bydd y perchennog yn rhwymedig:-

A) Cartrefi gofal yn ystyr Deddf Safonau Gofal 2000 a rhai hostelau.
B) Anheddau lle bo aelodau o gymuned grefyddol yn preswylio.
C) Tai mewn meddiant lluosog.
D) Anheddau lle bo'r cyflogwr yn aros ynddynt o bryd i'w gilydd ond lle bo'r staff yn preswylio yn yr annedd.
E) Anheddau gweinidogion yr efengyl.
F) Annedd sydd wedi'i darparu ar gyfer ceiswyr lloches o dan adran 95 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999.

## HAWLIAU APÊL

Gallwch apelio os credwch:-

i) Fod y bil wedi'i gyfeirio i'r person anghywir;
ii) Y dylai eich eiddo gael ei eithrio rhag talu Treth y Cyngor;
iii) Bod gennych hawl i ostyngiad ond na roddwyd gostyngiad i chi;
iv) Bod gennych hawl i ostyngiad ar gyfer yr anabl ond na roddwyd gostyngiad i chi;
v) Na ddylai eich eiddo fod yn y dosbarthiadau penodedig o anheddau.

Dylech ysgrifennu yn y lle cyntaf at y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn nodi beth yn union yw sail eich apêl. Caiff y sefyllfa ei hadolygu a chewch wybod beth fydd y penderfyniad. Os byddwch yn dal i deimlo'n anhapus â'r penderfyniad, bydd gennych hawl i apelio ymhellach gerbron Tribiwnlys Prisio.

## RHESTRI PRISIO

Bydd pob annedd ddomestig yn ymddangos yn Rhestr Brisio Treth y Cyngor. Mae'r rhestr ar gael i'r cyhoedd ei gweld yn y swyddfeydd uchod. Rhoddwyd pob eiddo yn un o'r naw band prisio.

## HAWL I APELIO - MATERION PRISIO

Gallwch apelio yn erbyn y band o dan yr amgylchiadau canlynol:-

- Ar ôl i'r eiddo gael ei ddymchwel neu ei drosi (e.e. o dai i fflatiau).
- Pan fu newid ffisegol yn yr ardal a fydd yn effeithio ar werth eiddo.

Ac o fewn 6 mis i:-

- Newid a wnaed ym mand eiddo gan yr Asiantaeth y Swyddfa Brisio.
- Newid a wnaed ym mand eiddo tebyg i'ch eiddo chi gan y Llys.
- Talu Treth y Cyngor am y tro cyntaf.

## OS BYDDWCH CHI'N CYFLWYNO APÊL NID YW HYN YN GOLYGU GALLWCH BEIDIO Â THALU EICH TRETH Y CYNGOR.

Os bydd eich apêl yn llwyddiannus bydd hawl gennych gael ad-daliadau ar unrhyw Dreth y Cyngor a ordalwyd gennych. Gellir cael ffurflenni ar gyfer cyflwyno apêl ac unrhyw wybodaeth bellach ar y trefniadau apêl oddi wrth Swyddog Rhestru Asiantaeth y Swyddfa Brisio i Cyngor Sir Ceredigion, Swyddog Rhestru Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Durham Customer Service Centre, Wycliffe House, Green Lane, Durham, DH1 3UW. Rhif ffôn y llinell gymorth yw 03000 505505 neu mi allwch ymweld â'r wefan ar www.voa.gov.uk. Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniad y Swyddog Rhestru bydd gennych hawl i apelio ymhellach i'r Tribiwnlys Prisio.

## BUDD-DÂL TAI A GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR (GYNT BUDD-DÂL TRETH Y CYNGOR)

Gallwch gael Budd-dâl Tai os bydd angen help arnoch i dalu eich rhent. Gallwch gael gostyngiad o dan y Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor os bydd angen help arnoch i dalu Treth y Cyngor. Dim ond ar gyfer eich prif annedd y gallwch hawlio gostyngiad Treth y Cyngor a bydd yn rhaid i chi fod yn rhwymedig naill ai ar eich pen eich hun neu gyda rhywun arall i dalu Treth y Cyngor i'r Cyngor.

Mae maint y Budd–dâl Tai/Gostyngiad Treth Y Cyngor yn dibynnu ar bedwar o ffactorau:-

(i) Faint o arian fydd gennych yn dod i mewn,
(ii) Faint o arian sydd gennych wedi'i gynilo,
(iii) Eich amgylchiadau personol, a
(iv) Faint o'r rhent sy'n gymwys y byddwch yn ei dalu a/neu faint o Dreth y Cyngor a godir arnoch.

**Os yw eich bil yn dangos bod gostyngiad wedi'i ganiatáu rhaid i chi ddweud wrth yr awdurdod sy'n eich bilio os bydd unrhyw newid yn eich amgylchiadau a fydd yn effeithio ar eich hawliau. Os na wnewch hynny, allwch gael eich cosbi.**

## NEWID MEWN AMGYLCHIADAU

## TRETH Y CYNGOR, BUDD-DAL A CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

### NEWID CYFEIRIAD

Os byddwch yn symud cartref, bydd angen i'r Cyngor newid eich bil Treth y Cyngor. Rhowch wybod i'r Pennaeth Cyllid os byddwch yn newid eich cyfeiriad.

### BUDD-DAL A CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

Os byddwch yn derbyn gostyngiad o dan y Cynllun Gostyngiad Treth Y Cyngor (neu Fudd-dâl Tai). MAE'N DDYLETSWYDD ARNOCH I ROI GWYBOD I'R SWYDDFA FUDDDALIADAU AR UNWAITH os bydd unrhyw newid yn eich amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y budd-dal neu gostyngiad Treth Y Cyngor a gewch.

**OS NA FYDDWCH WEDI RHOI GWYBOD I'R CYNGOR AM UNRHYW NEWID YN EICH AMGYLCHIADAU, BYDD YN RHAID I CHI DALU'N ÔL UNRHYW FUDDDÂL NEU GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR A ORDALWYD I CHI.**

Mae'n ofynnol i chi, YN ÔL Y GYFRAITH, roi gwybod i'r Cyngor o fewn 21 niwrnod os bydd unrhyw newid yn eich amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y canlynol:-

### ANHEDDAU WEDI'U HEITHRIO

Rhaid dweud wrth y Cyngor os bydd yr annedd yn peidio â bod yn gymwys i'w heithrio rhag talu Treth y Cyngor.

### GOSTYNGIADAU

Rhaid dweud wrth y Cyngor os na fyddwch yn gymwys mwyach am ostyngiad ar gyfer person sengl neu os bydd rhywun a ddiystyrir yn peidio â chael ei ddiystyru at ddibenion y gostyngiad, neu os bydd rhywun yn symud i mewn i eiddo gwag i fyw ynddo.

### GOSTYNGIAD AR GYFER YR ANABL

Rhaid dweud wrth y Cyngor os credwch nad ydych yn gymwys mwyach am y gostyngiad ar gyfer yr anabl.

Gallwch ymweld a'n gwefan ar: **www.ceredigion.gov.uk**